Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
# Rheoli Dogfennau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **POLISI** | ***Polisi a Gweithdrefn Gwyno – Y Gymraeg*** | | |
| **DYDDIAD CYHOEDDI** | ***22 Ebrill 2025*** | **DYDDIAD ADOLYGU** | ***22 Ebrill 2026*** |
| **FERSIWN** | ***6.00*** | **PERCHENNOG** | ***Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau*** |
| **CWMPAS** | ***Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau yn berthnasol i bob cyflogai*** | | |
| **DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG** | ***Polisi'r Gymraeg<br>Safonau'r Gymraeg – Hysbysiad Cydymffurfio*** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYMERADWYWYD GAN** | ***Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*** | **DYDDIAD** | ***13 Chwefror 2017*** |
| **CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU A HYFFORDDI** | ***Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth*** | | |
| **DOSBARTHIAD** | ***E-bost, Microsoft Office 365 (Sharepoint), Llwyfan AD*** | | |

| **Adolygiadau** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | **Awdur:** | **Disgrifiad:** |
| Ebrill 2025 | Andrew Richardson, Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio | Mân ddiwygiadau i'r polisi i adlewyrchu newidiadau i rolau a chyfrifoldebau. |
| Ebrill 2024 | Andrew Richardson, Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio | Mân ddiwygiadau i'r polisi i adlewyrchu newidiadau gweithredol a newidiadau i brosesau. Cynhaliwyd Asesiad Effaith yn unol â pholisi a gweithdrefn newydd ar bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill. |
| Chwefror 2023 | Andrew Richardson, Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio | Mân ddiwygiadau i adlewyrchu newidiadau i deitlau swyddi, rolau a chyfrifoldebau. |
| Tachwedd 2021 | Ian Bevan, Rheolwr Diogelu Data a Chydymffurfio | Adolygu a diweddaru ar sail cyngor gan ymgynghorydd y Gymraeg. Mân ddiwygiadau. Bydd fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn cael ei chynhyrchu hefyd. |
| Mawrth 2020 | Ian Bevan, Rheolwr Diogelu Data a Chydymffurfio | Adolygu'r Polisi, dileu'r ddolen i'r Canllaw Cwynion allanol |
| Chwefror 2017 | Gemma Bafico, Rheolwr Gweithrediadau | Creu'r ddogfen gychwynnol |

# Polisi a Gweithdrefn Gwyno – Y Gymraeg

## *1. Pwrpas*

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ("y Cwmni") wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg rhagorol. Mae'r Cwmni'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth gynnal ei fusnes, ac wrth ddarparu ei wasanaethau.

Mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu ragor o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r Cwmni gydymffurfio â'r Safonau Gwasanaeth Cymraeg a osodir ar Weinidogion Cymru.

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod pob cwyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael ei thrin yn deg, yn gyson a lle bynnag y bo modd yn cael ei datrys i foddhad yr achwynydd ac yn unol â'r gofynion ynghylch delio â chwynion o dan Safonau'r Gymraeg.

Dylid cyfeirio at Bolisi'r Gymraeg a'r Safonau Gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Cwmni ar y cyd â'r polisi hwn.

## *2. Cwmpas*

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel i'w randdeiliaid ac i weithio mewn ffordd agored ac atebol sy'n meithrin ymddiriedaeth a pharch.

Mae'r Cwmni'n ystyried cwynion yn gyfle i ddysgu a gwella ar gyfer y dyfodol, ac yn gyfle i unioni pethau i'r person, i'r bobl neu i'r sefydliad sydd wedi gwneud y gŵyn.

Mae disgwyl i gyflogeion reoli unrhyw fynegiad o anfodlonrwydd a wneir i'r Cwmni neu ynghylch y Cwmni, gan gynnwys ei wasanaethau a'i gyflogeion, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, yn unol â'r Polisi.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg yn pennu'r Safonau Gwasanaeth y mae'n rhaid i'r cwmni gydymffurfio â nhw.

Bydd cwynion a wneir ynghylch y Gymraeg sy'n perthyn i gwmpas y Safonau Gwasanaeth yn cael sylw yn unol â'r Safonau hynny a'r Rheoliadau. Bydd cwynion y tu allan i'r cwmpas yn cael sylw drwy ddilyn y polisi hwn a Pholisi Cwynion cyffredinol y cwmni.

Gall cyflogeion y cwmni wneud cwyn ynghylch y Safonau Gweithredol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn unol â'r polisi hwn (a'r weithdrefn).

## *3. Egwyddorion*

Polisi'r Cwmni yw cydnabod ac ymchwilio i bob cwyn y mae'n ei chael ynghylch y Gymraeg.

Mae'r Cwmni'n croesawu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weithgareddau busnes, ac i randdeiliaid ymgysylltu â'r Cwmni yn yr iaith o'u dewis.

Mae croeso i achwynydd wneud cwyn yn Gymraeg ac ni chaiff ei drin yn llai ffafriol am wneud hynny. Bydd yr holl dargedau amser ar gyfer delio â chwynion yr un fath ar gyfer cwynion a geir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Cwmni'n derbyn cwynion yn ysgrifenedig neu ar lafar ar gyfer y cam anffurfiol, ac yn ysgrifenedig wrth ddilyn y weithdrefn ffurfiol a'r weithdrefn apelio.

## *4. Cyfrifoldebau*

Mae gan holl aelodau'r tîm gyfrifoldeb i ddelio'n briodol ac yn gyflym ag unrhyw gŵyn, ac i ddilyn y polisi hwn a'r weithdrefn gwyno.

Y prif gyswllt ar gyfer y Gymraeg yn y Cwmni yw'r Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio. Mae'r rôl hon hefyd yn cynnwys gwaith monitro ac adrodd cyffredinol ar y cwynion ynghylch y Gymraeg, ac adrodd ar gwynion o dan gylch gwaith Safonau'r Gymraeg i Lywodraeth Cymru.

## *5. Monitro ac Adrodd*

Bydd yr holl gwynion ynghylch y Gymraeg yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad blynyddol ar y Gymraeg ac yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Bydd monitro cwynion ac ymchwilio iddynt yn helpu'r cwmni i ddysgu a gwella ar gyfer arferion yn y dyfodol.

## *6. Y Weithdrefn Gwyno*

### 6.1 Cyflwyniad

Nod polisi a gweithdrefnau'r Cwmni yw sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn brydlon gyda chanlyniad effeithlon, bod disgwyliadau'r gŵyn yn cael eu rheoli drwy gydol oes y gŵyn, h.y. dylid ei gwneud yn glir beth fydd yn digwydd i'r gŵyn, pwy fydd yn berchen arni, pa weithgareddau

fydd yn digwydd a'r amserlen debygol i'r Cwmni ymateb yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a sut y bydd yn ymateb.

## 6.2 Cam Un - Datrys yn Anffurfiol

Bydd y rhan fwyaf o faterion yn cael eu datrys yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith, a dylid gwneud hynny.

Dylai'r achwynydd fynegi ei bryderon wrth aelod o'r tîm sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am y mater dan sylw, er mwyn ceisio datrys y mater yn foddhaol.

Os yw'n briodol, dylid cynnig cyfarfod rhwng yr achwynydd a'r aelod cyfrifol o'r tîm i gytuno ar ddatrysiad. Gellir hwyluso cyfarfod o'r fath yn Gymraeg neu'n unol â dewis iaith yr achwynydd.

Os bydd pryder yn ymwneud ag aelod o dîm, dylid ei gyfeirio at y rheolwr llinell perthnasol.

Yn y cam anffurfiol hwn, gellir codi pryderon wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost.

Os nad yw'r achwynydd yn teimlo bod yr aelod o'r tîm sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol wedi rhoi sylw i'w bryderon, dylai wneud cwyn ffurfiol – **gweler Cam 2**.

Dylid cofnodi manylion pob cwyn anffurfiol, ar ôl eu datrys yn foddhaol, ar y Gofrestr Cwynion.

## 6.3 Cam 2 – Y Weithdrefn Gwyno Ffurfiol

Pan fydd cwynion yn rhai difrifol iawn neu pan na ellir datrys y mater yn anffurfiol, dylai'r achwynydd wneud cwyn ffurfiol, a hynny'n ysgrifenedig at y Prif Weithredwr.

Dyma'r weithdrefn ffurfiol:

### 6.3.1 Cydnabod

Dylai'r gŵyn gael ei chydnabod gan y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio o fewn pum diwrnod gwaith i'w chael, gan nodi enw'r Swyddog Ymchwilio (i'w benodi gan y Prif Weithredwr) ac y bydd ymateb yn cael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith gan ddefnyddio templed safonol (Atodiad 2).

### 6.3.2 Cofnodi

Bydd y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio yn cadw cofnod o'r holl gwynion, ac yn cofnodi cynnydd a chanlyniadau yn y Gofrestr Cwynion.

Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gŵyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

### 6.3.3 Neilltuo

Bydd y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio yn anfon y gŵyn ymlaen at y Swyddog Ymchwilio.

Dylai'r Swyddog Ymchwilio fod yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain i ddangos i'r achwynydd pa mor bwysig yw rheoli cwynion yn effeithiol i'r cwmni, ond ni ddylai fod yr un rheolwr sydd wedi asesu'r gŵyn anffurfiol.

### 6.3.4 Ymchwilio

Rôl y Swyddog Ymchwilio yw cynnal ymarfer canfod ffeithiau i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol am y mater.

Gall y Swyddog Ymchwilio gysylltu â'r achwynydd i gael rhagor o wybodaeth neu i'w wahodd i gyfarfod. Gall cynrychiolydd y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno ddod gyda'r achwynydd, yn amodol ar hysbysiad ymlaen llaw. Ni chaiff yr unigolyn hwn gymryd rhan weithredol yn yr achos ond gall gynnig cefnogaeth i'r achwynydd.

Dylai'r Swyddog Ymchwilio fod yn deg ac yn wrthrychol wrth roi ystyriaeth briodol i sefydlu ac asesu ffeithiau'r mater.

Mae'r cwmni'n derbyn y gall fod angen cyfnod ymchwilio estynedig ar gyfer rhai sefyllfaoedd. Os yw'n annhebygol y bydd penderfyniad o fewn y cyfnod ymchwilio o 20 diwrnod, dylai'r Swyddog Ymchwilio hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig gan ddarparu dyddiad diwygiedig.

### 6.3.5 Datrys

Bydd y Swyddog Ymchwilio'n llunio barn ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ac yn penderfynu

- gwrthod y gŵyn fel un ddi-sail, gan roi rhesymau
- cadarnhau'r gŵyn neu ei chadarnhau'n rhannol
- cynnig setliad cyfeillgar
- cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater er mwyn atal problem debyg rhag codi yn y dyfodol

Bydd y Swyddog Ymchwilio’n ymateb yn ysgrifenedig i’r achwynydd gan nodi

- manylion y gŵyn
- canlyniad yr ymchwiliad
- y rhesymeg sy’n sail i’r canlyniad
- ymddiheuriad ffurfiol os caiff y gŵyn ei chadarnhau
- y camau gweithredu arfaethedig i wneud iawn am y gŵyn

**6.3.6 Apelio**

Os yw’r achwynydd yn anfodlon ar ganlyniad yr ymchwiliad, gall apelio i’r Prif Weithredwr o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr ymateb.

Os nad yw’n briodol i’r Prif Weithredwr glywed yr apêl (er enghraifft oherwydd cysylltiad uniongyrchol â’r mater sy’n destun ymchwiliad), gall aelod o Fwrdd y cwmni arwain y broses apelio.

Bydd y Swyddog Ymchwilio’n cydnabod ei fod wedi cael yr apêl o fewn pum diwrnod gwaith. Dylid apelio’n ysgrifenedig gan nodi’r sail dros apelio ac unrhyw gamau y dymunir eu gweld.

Gellir apelio yn erbyn canlyniad cwyn ar y sail:

- Bod tystiolaeth na chafodd y weithdrefn ei dilyn
- Bod tystiolaeth newydd wedi dod i’r amlwg
- Bod tystiolaeth o duedd neu ragfarn gan y cwmni yn y broses ymchwilio, neu mae tystiolaeth o wallau yn yr ymchwiliad

Beth bynnag fo sail yr apêl, dylid darparu’r dystiolaeth.

Dim ond ar y seiliau a nodir uchod y gellir apelio ac ni chaniateir cyflwyno apêl dim ond i herio’r penderfyniad sy’n deillio o’r ymchwiliad i’r gŵyn.

Bydd y Prif Weithredwr neu’r aelod o’r Bwrdd yn adolygu’r gwaith papur o’r ymchwiliad i’r gŵyn ac yn penderfynu

- cadarnhau’r penderfyniad gwreiddiol/gwrthod y gŵyn fel un ddi-sail
- cadarnhau’r gŵyn neu ei chadarnhau’n rhannol
- argymell bod camau priodol yn cael eu cymryd, lle bo angen, i fynd i'r afael â'r mater ac i atal problem debyg rhag codi yn y dyfodol

Bydd y Prif Weithredwr neu’r aelod o’r Bwrdd yn ysgrifennu at yr achwynydd, o fewn 20 diwrnod gwaith i gael yr apêl, yn nodi’r canlyniad.

Os bydd y Prif Weithredwr neu aelod o'r Bwrdd yn penderfynu ei bod yn briodol cynnal gwrandawiad apêl, bydd hyn yn cael ei gynnal o fewn deg diwrnod gwaith i gael yr apêl fel arfer. Gall cynrychiolydd y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno ddod gyda'r achwynydd, yn amodol ar hysbysiad ymlaen llaw. Ni chaiff yr unigolyn hwn gymryd rhan weithredol yn yr achos ond gall gynnig cefnogaeth i'r achwynydd.

Caiff hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl ei anfon o fewn 10 diwrnod gwaith i wrandawiad yr apêl fel arfer.

Mae penderfyniad y Prif Weithredwr neu'r aelod o'r Bwrdd yn derfynol.

### 6.3.7 Cau Cwynion

Ystyrir bod cwyn wedi'i chau os na cheir apêl o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad y caiff canlyniad yr ymchwiliad ei gyfleu i'r achwynydd.

### 6.3.8 Cadw Cofnodion

Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â chwyn yn cael eu storio'n electronig ar safle SharePoint y cwmni yn ffolder Cwynion ac Adborth Cadarnhaol y Cwmni.

Y Swyddog Ymchwilio sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu cadw.

Mae'r Swyddog Ymchwilio hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio i hwyluso'r gwaith o lenwi'r Gofrestr Cwynion.

### 6.3.9 Gwella Ansawdd

Bydd y Prif Weithredwr a'r tîm rheoli yn sicrhau bod camau perthnasol, yn ôl yr angen, yn cael eu cymryd i newid gweithdrefnau neu i roi hyfforddiant staff ar waith i atal cwynion rhag codi eto.

### 6.3.10 Monitro Cwynion

Bydd y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio yn monitro'r holl gwynion sy'n cael eu cofnodi ynghylch y Gymraeg i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn, ac i nodi tueddiadau posib ac felly meysydd i'w gwella.

Bydd yr ymchwiliad a'r datrysiad yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Bydd y gŵyn hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

## 6.4 Cwynion statudol o dan adran 93 o Fesur y Gymraeg

Bydd cwynion ynghylch y Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n perthyn i gwynion statudol am Safonau'r Gymraeg yn dilyn y broses allanol briodol.

### 6.4.1 Polisi Gorfodi

Cyfeiriwch at wefan y Comisiynwyr Iaith. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd sydd ar gael yma:

[Comisiynydd y Gymraeg]

Mae'r polisi hwn yn ddogfen statudol a gynhyrchir yn unol ag adran 108 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Mesur y Gymraeg].

Mae'n ddogfen sy'n nodi'r cyngor a'r wybodaeth am y dull gweithredu y mae Comisiynydd y Gymraeg [y Comisiynydd] yn bwriadu ei ddilyn wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 o Fesur y Gymraeg.

### 6.4.2 Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd

Caiff person gwyno wrth y Comisiynydd am ymddygiad y cwmni mewn perthynas ag un o'r safonau y mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw. Rhaid i'r achwynydd fod yn berson y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol, neu'n berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.

Bydd y Comisiynydd yn derbyn cwynion ysgrifenedig drwy'r post, drwy e-bost, drwy'r wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, mae modd i'r rhai na allant gyflwyno cwyn ysgrifenedig oherwydd eu hamgylchiadau personol gysylltu â'r Comisiynydd dros y ffôn neu unrhyw gyfrwng priodol arall i egluro hynny ac i drafod eu cwyn. Bydd y Comisiynydd yn gwneud darpariaeth resymol ac yn rhoi cymorth iddynt gyflwyno eu cwyn drwy ddull arall.

### 6.4.3 Datrysiad anffurfiol sy'n cael ei annog

Mae'r Comisiynydd yn annog achwynwyr i gwyno wrth y person perthnasol yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi cyfle i'r person hwnnw ymateb a chynnig datrysiad. Fodd bynnag, rhaid ei gwneud yn glir nad oes angen i'r achwynydd gyflwyno cwyn i berson perthnasol.

#### 6.4.4 Amserlen

Disgwylir i achwynydd, neu berson sy'n gweithredu ar ran achwynydd, gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd o fewn blwyddyn o ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig.

#### 6.4.5 Camau Allweddol

1. Cydnabod y gŵyn
2. Canfod a chadarnhau (os yw'n briodol) bod y gŵyn yn ddilys, h.y. yn dod o dan y Safonau Gwasanaeth, yn berthnasol i'r cwmni ac yn *gŵyn ddilys*
3. *Mae'r Comisiynydd yn ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad statudol ai peidio / yn gofyn am wybodaeth gan y sefydliad / yn dod i benderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn briodol*

Os felly, bydd y Comisiynydd yn

4. cynnal ymchwiliad statudol
5. cyflwyno dyfarniad yr ymchwiliad statudol (gan gynnwys y cyfle i gyflwyno sylwadau ar gynigion sydd i'w gwneud gan y Comisiynydd).
6. darparu copïau terfynol o'r hysbysiad penderfynu ac adroddiad yr ymchwiliad statudol i'r partïon dan sylw.

Bydd y cwmni'n cydweithredu'n llawn gyda'r Comisiynydd Iaith gyda phob cais cychwynnol am wybodaeth ac unrhyw ymchwiliad statudol dilynol.

Bydd y cwmni bob amser yn gwneud ei orau glas i sicrhau datrysiad rhesymol. Byddai unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cynnig gan y Comisiynydd yn dilyn ei ymchwiliad yn cael sylw llawn a chyflym, gyda'r nod o ddatrys y mater a gwella gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

### 6.5 Apelio yn erbyn Penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg

Gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac aelodau'r cyhoedd apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd mewn rhai amgylchiadau. Mae canllawiau Tribiwnlys y Gymraeg – Apelio yn erbyn canlyniad ymchwiliad gan y Comisiynydd yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, at ddibenion polisi, dyma broses Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru:

#### 6.5.1 Apêl gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Gall Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru apelio yn erbyn penderfyniad (o fewn 28 diwrnod) o dan Adran 98 o'r Mesur ar y sail:

- Bod y Comisiynydd yn anghywir i ddyfarnu bod methiant i gydymffurfio (Adran 95(2))
- Bod camau gorfodi arfaethedig y Comisiynydd yn afresymol neu'n anghymesur (Adran 95(4))

Mewn apêl yn erbyn y cam gorfodi arfaethedig, gall y Tribiwnlys amrywio'r cam hwnnw.

Ar gyfer apêl ar y sail bod y Comisiynydd yn anghywir i ddyfarnu bod methiant i gydymffurfio, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau yn yr achos hwn yn llenwi Ffurflen Gais Tribiwnlys y Gymraeg ac yn ticio blwch 3b.

Ar gyfer apêl ar y sail bod cam gorfodi arfaethedig y Comisiynydd yn afresymol neu'n anghymesur, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau yn llenwi Ffurflen Gais Tribiwnlys y Gymraeg ac yn ticio blwch 3c.

#### 6.5.2 Apêl gan achwynydd

Caiff achwynydd (y person a wnaeth y gŵyn a arweiniodd at yr ymchwiliad) apelio i'r Tribiwnlys (o fewn 28 diwrnod) o dan Adran 99 o'r Mesur os yw'r Comisiynydd wedi dyfarnu, yn dilyn yr ymchwiliad, na fu methiant i gydymffurfio.

Ar gyfer apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio, dylai'r achwynydd lenwi Ffurflen Gais Tribiwnlys y Gymraeg a thicio blwch 3d.

#### 6.5.3 Apelio yn erbyn Hysbysiad Tystiolaeth

Os bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael hysbysiad tystiolaeth gan y Comisiynydd ac yn dymuno apelio yn ei erbyn, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn llenwi Ffurflen Gais Tribiwnlys y Gymraeg ac yn cynnwys datganiad ynghylch natur y cais. Dylai'r cais hwn gynnwys y rhesymau dros wneud y cais yn glir. Gellir cael rhagor o gymorth gan y Tribiwnlys mewn achosion lle gallai fod angen rhagor o wybodaeth.

## Atodiad 1

## Gweithdrefn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer Cwynion ynghylch y Gymraeg

**Datrysiad Anffurfiol**

Dylid datrys y rhan fwyaf o faterion yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith.
Dylai'r achwynydd fynegi ei bryderon wrth aelod o'r tîm sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am y mater dan sylw, er mwyn ceisio datrys y mater yn foddhaol.
Os yw'r gŵyn wedi cael ei gwneud yn erbyn aelod o dîm, dylid ei chodi gyda'r rheolwr llinell perthnasol.
Mewn cam anffurfiol, gellir codi pryderon wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost.

Os caiff y gŵyn anffurfiol ei datrys yn foddhaol, dylid ei chofnodi ar y Gofrestr Cwynion.

Os yw'r achwynydd yn teimlo nad yw'r person cyfrifol wedi rhoi sylw i'w bryderon, neu os yw'r gŵyn yn un ddifrifol, dylai gyflwyno cwyn ffurfiol drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr.

**Cydnabod** – dylai'r gŵyn gael ei chydnabod gan y Prif Weithredwr yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith, gan nodi enw a theitl y Swyddog Ymchwilio ac y bydd ymateb yn cael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith.

**Cofnodi** – y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio i gadw cofnod o'r holl gwynion, a chofnodi cynnydd a chanlyniadau ar y Gofrestr Cwynion.

**Neilltuo** – bydd y Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio yn anfon y gŵyn ymlaen at y Swyddog Ymchwilio.

**Ymchwilio** – bydd y Swyddog Ymchwilio'n cynnal ymarfer canfod ffeithiau i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol am y mater.

**Datrys** – Bydd y Swyddog Ymchwilio'n dyfarnu ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ac yn penderfynu:

- Gwrthod yr achos fel un di-sail, gan roi rhesymau.
- Cadarnhau'r gŵyn neu ei chadarnhau'n rhannol.
- Cynnig setliad cyfeillgar.
- Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater er mwyn atal problem debyg rhag codi yn y dyfodol.

Bydd y Swyddog Ymchwilio'n ymateb i'r hawlydd ar bapur.

**Apelio** – os yw'r achwynydd yn anfodlon ar yr ymchwiliad, gall apelio i'r Prif Weithredwr yn ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod

**Cau** – ystyrir bod cwyn wedi'i chau os na cheir apêl o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad y caiff canlyniad yr ymchwiliad ei gyfleu i'r achwynydd.

**ATODIAD 2**

**TEMPLED CYDNABOD CWYNION**

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
3 Assembly Square
Bae Caerdydd
CF10 4PL

Ffôn: 029 2046 7030

(Bloc Cyfeiriad)

(Dyddiad)

Annwyl (Enw),

Diolch i chi am eich llythyr/e-bost dyddiedig (dyddiad), a dderbyniwyd yn ein swyddfa ar (dyddiad).

Mae’n ddrwg gennyf eich bod yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gennym a gallaf gadarnhau y byddwn yn ymchwilio i’ch pryderon.

Mae (enw a theitl) wedi cael ei benodi’n Swyddog Ymchwilio a bydd yn cysylltu â chi i drafod y mater ymhellach.

Rwyf wedi amgáu ein gweithdrefn gwyno, sy’n esbonio sut y caiff eich cwyn ei rheoli a phryd y byddwn yn cysylltu â chi eto.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Yn amgaeedig:

1. Gweithdrefn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer Cwynion ynghylch y Gymraeg